**Tom G James**

| | |
|---|---|
| **From:** | Gerwyn Rhys [redacted] |
| **Sent:** | 14 April 2023 12:54 |
| **To:** | EED Forward Planning |
| **Subject:** | Parthed: Safle SuV20/h1 (tir ger fferm Llwyn Henri) |
| **Categories:** | Bethan |

**Caution:** This is an external email and did not originate from within the Council. Please take care when clicking links or opening attachments. When in doubt, use the 'Report Message' button.

**Rhybudd:** E-bost allanol yw hwn ac nid oedd yn tarddu o'r Cyngor. Byddwch yn ofalus wrth glicio dolenni neu atodiadau agoriadol. Pan fyddwch yn ansicr, defnyddiwch y botwm 'Report Message'.

Annwyl Syr/Fadam,

**Parthed: Safle SuV20/h1 (tir ger fferm Llwyn Henri)**

Ysgrifennaf i gofrestru fy ngwrthwynebiad llwyr i gynnwys Safle SuV20/h1 yng Nghynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018 – 2033. Roedd gwrthwynebiad chwyrn i'r safle hwn gan bobl y pentref nôl yn 2014. Bryd hynny cafodd y safle ei wrthod yn unfrydol gan Ymgynghorydd Cynllunio Annibynnol ac Arolygydd Cynllunio Annibynnol. Cafodd y safle hefyd ei wrthod gan Adain Blaen-gynllunio'r Cyngor ar ôl gwneud 'asesiadau trylwyr'. Roedd y pryderon ynghylch y safle ar y pryd yn cynnwys y ffaith bod rhan o'r safle ar barth llifogydd a bod yna eisoes broblemau'n ymwneud â llif dŵr glaw ar y safle a chapasiti'r system garthffosiaeth. Nid yw'r problemau hyn wedi diflannu nac wedi newid. Po fwyaf o ddatblygu fydd yn digwydd yn y pentref, y mwyaf o straen fydd ar y seilwaith carthffosiaeth a dŵr glaw, sydd eisoes yn methu ymdopi. Yn 2021 cafodd carthion heb eu trin eu rhyddhau i afon Gwendraeth Fach 77 o weithiau, gan Dŵr Cymru, o'r bibell ym Mhontfaen – dim ond un enghraifft yw hyn. Mae'r safle ger Llwyn Henri yn aml yn ddirlawn ar ôl glaw trwm ac yn aml gwelir llynnoedd o ddŵr yn sefyll arno, ac mae dŵr hefyd yn llifo i lawr y ffordd fach sy'n mynd heibio i fynedfa Llwyn Henri (hen heol Gelli-ddu Fach) – byddai unrhyw ddatblygu ar y safle hwn yn golygu colli amsugfa ddŵr naturiol a gwerthfawr a byddai'n anochel yn arwain at waethygu problemau llifogydd a charthffosiaeth yn y pentref.

Yn ychwanegol, mae'r map yn dangos newid yn ffin y pentref ar hyd ffordd y B4310. Yn ôl y map mae ffin ddeheuol y pentref wedi symud ymhellach i'r De – lle'r oedd yn gorffen gydag Awelfryn mae'r map newydd yn cynnwys darn o'r cae o flaen Tŷ Cynheidre. Beth yw'r rheswm am hyn a beth allai'r goblygiadau fod o ran y math o ddatblygu a allai gael ei ganiatáu yma?

Yn gywir

Gerwyn Rhys